

Cofnodion Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Mai 3ydd 2016

Presennol: Beryl Griffiths (Cadeirydd), Heledd Jones (is gadeirydd), Alwyn Roberts, Huw Antur, Karl Jones, Catrin Roberts, Dewi Jones, Rhodri Jones, Huw P Roberts a Bethan Edwards (Swyddog Ariannol).

1573 Croesawyd pawb a derbyniwyd ymddiheuriad Ian Trow, Lis Puw (Clerc) ac Alan Jones Evans, (Cynghorydd Gwynedd).

1574 Nid oedd cyflwyniadau gan aelodau o'r cyhoedd ar fater ar yr Agenda.

1575 Nid oedd datganiadau o fuddiant.

1576 Cadarnhawyd cywirdeb Cofnodion cyfarfod 12 Ebrill 2016.

1577 **Adroddiad y Cynghorydd Sir:** Darllenwyd neges gan y Cyng Alan Jones Evans yn adrodd ar gyfarfod a gafodd gyda swyddogion Cyngor Gwynedd i drafod diogelwch ffordd ger y Neuadd Bentref pan fydd yr Ysgol Feithrin yn dod i ben am y dydd. Cytunwyd fod cyflymder traffig (ceir a bysiau) yn fwy o broblem na threfniadau parcio, a bod angen ystyried paratoi arwyddion ar gyfer y safle. Cytunwyd i ofyn am gydweithrediad swyddogion priffyrdd Cyngor Gwynedd ynglyn â hyn. Cytunwyd hefyd i ofyn am asesiad o gyflymder traffig yn y rhan yma o'r pentref.

1578 **Y Noson Goffi:** cytunwyd i roi'r eitem ar Agenda'r cyfarfod nesaf.

1579 **Materion Eiddo'r Cyngor** – Adroddwyd fod peipiau wedi eu gosod yn y ddaear ger y Gilfach Goffa er mwyn gosod baneri yn ddiogel. Cytunwyd i ddod a hyn i sylw mudiadau sy'n gosod baneri yn yr ardal yma, gan roi canllawiau diogelwch rhag torri gwifrau trydan.

1580 **Materion ariannol** –

- i. Cytunwyd i dalu'r Cyfnod am hysbyseb, Chris Ellis am dorri gwair y fynwent, a thalu am nwyddau i ail osod slabiau ger y Gilfach Goffa.
- ii. Derbyniwyd llythyrau o ddiolch am gyfraniadau ariannol y cyngor gan Ysgol y Berwyn a Sioe Llanuwchllyn.
- iii. Gofynnwyd i'r Is Bwyllgor Cyllid ystyried sut y dylid adrodd ar daliadau misol y Cyngor sydd o dan drothwy ariannol y Cyngor.

1581 **Materion lleol gan aelodau'r Cyngor Cymuned** – adroddwyd fod bin baw cwn Maes y Pandy yn orlawn a bod baw cwn eto'n broblem yn y Pandy. Cytunwyd i ddod a hyn i sylw swyddogion Cyngor Gwynedd.

Cyngor Cymuned Llanuwchllyn

Cadeirydd: Beryl Griffiths

1582 **Partneriaeth Penllyn:** derbyniwyd adroddiad y cynrychiolwyr am y Gytundeb sy'n cael ei pharatoi ar gyfer eleni ac am drefniadau pellach i adfer peth o hwyl Ffair Y Bala, pryd y bydd crefftwyr lleol yn gwerthu eu nwyddau ac adloniant byw ar y stryd.

1583 **Gohebiaeth:**

1. Parc Cenedlaethol Eryri:

i Derbyniwyd gwybodaeth fod cais cynllunio ôl weithredol i barhau i ddefnyddio Hen Iard Lo Penygeulan gan ddarparwr busnes gwasanaethau diogelwch wedi ei ganiatáu gan y Parc Cenedlaethol.

ii Derbyniwyd gwybodaeth fod apêl gynllunio ar safle Ty'n Ffridd wedi ei gwrthod gan yr Arolygaeth Gynllunio.

iii Derbyniwyd cais NP5/71/T425A i godi estyniad deulawr i Feudy Isaf, Pennantlliw. Cytunwyd i gefnogi'r cais.

Cadarnhawyd dyddiad y cyfarfod nesaf: 7/6/16 yn y Neuadd Bentref